



Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Ymgynghoriad ar Reoliadau drafft

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2019

Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 25 Tachwedd 2019

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â gwneud Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, sy'n diddymu a disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013.

Mae Aseidiadau o Anghenion Fferyllol, a gyflwynir gan Reoliadau 2020, yn asesiad o argaeledd gwasanaethau fferyllol.

Bydd hi'n ofynnol i fyrddau iechyd yng Nghymru gynnal aseidiadau o anghenion fferyllol o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

Sut i ymateb

Llenwch yr holiadur ar gefn y ddogfen hon a'i anfon mewn e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriadau isod.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Aseiad Effaith Rheoleiddiol sydd wedi'i gyhoeddi yn:

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

e-bost: pharmacy.appeals@gov.wales

cyfeiriad: Ymgynghoriad PNA
Y Gangen Fferylliaeth a Rhagnodi
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Llawr 4 Dwyrain G08
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

rhif ffôn: 0300 025 1393

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddiill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich Hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu

Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD,

CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Ymgynghoriad ar Reoliadau drafft

Tabl Cynnwys

RHEOLIAD CYFFREDINOL AR DDIOGELU DATA (GDPR)	3
RHAGAIR	7
MANYLION YR YMGYNGHORIAD	9
<i>Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?</i>	9
<i>Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?</i>	9
<i>I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb?</i>	9
CYFLWYNIAD	10
CEFNDIR	10
Y SYSTEM BRESENNOL	12
Y SAIL DROS NEWID	12
YR EFFAITH FWRIEDIG A DEILLIANNAU BUDDIOL	13
POLISI, FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL A RHEOLEIDDIO	14
Y BROSES DDEDDFWRIAETHOL	14
DATBLYGU'R GOFYNION MANWL	15
EFFAITH AR FUSNESAU	15
ASESIADAU O ANGHENION FFERYLLOL	16
CEFNDIR	16
<i>Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020</i>	16
RHAN 1 – DEHONGLIAD	17
RHAN 2 – ASESIADAU O ANGHENION FFERYLLOL	17
<i>Gofyniad i gynnal asesiad o anghenion fferyllol</i>	17
<i>Gwybodaeth i'w chynnwys mewn Aseidiadau o Anghenion Fferyllol</i>	17
<i>Cyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol ac aseidiadau dilynol</i>	18
<i>Ymgynghoriad ar aseidiadau o anghenion fferyllol</i>	19
<i>Materion i'w hystyried wrth wneud aseidiadau</i>	21
MYNEDIAD I'R FARCHNAD	22
RHAN 3 – RHESTRAU FFERYLLOL A RHESTRAU MEDDYGON FFERYLLOL	22
<i>Paratoi a chynnal rhestrau fferyllol</i>	22
RHAN 4 – PENDERFYNU AR ARDALOEDD RHEOLEDIG	22
<i>Ardaloedd sy'n ardaloedd rheoledig</i>	22
RHAN 5 – CEISIADAU GAN FFERYLLWYR Y GIG A CHONTRACTWYR CYFARPAR Y GIG I GAEL EU	
CYNNWYS AR Y RHESTR FFERYLLOL NEU DDIWYGIO'R RHESTR FFERYLLOL	22
<i>Cynnwys ar y rhestr fferyllol a Chydsyniad Rhagarweiniol</i>	22
<i>Adeoli eiddo fferyllol</i>	23
<i>Adeoli eiddo fferyllol dros dro</i>	24

RHAN 6 – CEISIADAU GAN FEDDYGON FFERYLLOL I GAEL EU CYNWYS AR RESTRAU MEDDYGON FFERYLLOL NEU DDIWYGIO RHESTRAU MEDDYGON FFERYLLOL	25
<i>Trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol gan feddygon</i>	25
<i>Ardaloedd rheoledig, lleoliadau neilltuedig a meddygon fferyllol</i>	25
RHAN 7 – SEILIAU ADDASRWYDD, CYNWYS AR RESTRAU FFERYLLOL A THYNNU ODDI AR RESTRAU FFERYLLOL	26
RHAN 8 – CYNWYS YN AMODOL AR RESTRAU FFERYLLOL: AMODAU PENODOL NAD YDYNT YN YMWNEUD AG ADDASRWYDD NA PHERFFORMIAD	26
<i>Oriau agor craidd</i>	26
<i>Amodau yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyfeiriedig</i>	26
<i>Amodau yn ymwneud â datrys yn lleol anghydfod dros delerau gwasanaeth</i>	26
YMADAEL Â'R FARCHNAD A CHOSBAU AM BERFFORMIAD GWael	27
RHAN 9 – COSBAU AM BERFFORMIAD GWael AC YMADAEL Â'R FARCHNAD.....	27
<i>Datrys anghydfod yn lleol cyn cyflwyno hysbysiadau adfer neu hysbysiadau torri amodau</i>	27
<i>Torri telerau gwasanaeth: hysbysiadau adfer</i>	28
<i>Torri telerau gwasanaeth: hysbysiadau torri amodau</i>	29
<i>Tynnu oddi ar y rhestr: achosion yn ymwneud â hysbysiadau adfer a hysbysiadau torri amodau</i>	30
<i>Apelau yn erbyn ymadael â'r farchnad</i>	30
RHAN 10 – TALIADAU I FFERYLLWYR Y GIG A CHONTRACTWYR CYFARPAR Y GIG	31
RHAN 11 - AMRYWIOL	31
DARPARIAETHAU TROSIANNOL.....	31
ATODLENNI	32
Y BROSES YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI	33
<i>Y Broses Ymgynghori</i>	33
<i>Grwpiau yr effeithir arnynt</i>	33
FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD	34

RHAGAIR

Pleser o'r mwyaf yw cael lansio'r ymgynghoriad hwn sy'n amlinellu manylion Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o waith dros y blynyddoedd diwethaf i symud gwasanaethau iechyd a ddarparwyd yn draddodiadol mewn ysbytai i'r gymuned, yn nes at gartref y claf. Mae llawer o feddygfeydd teulu bellach yn cynnig gwasanaethau y byddai cleifion wedi cael mynediad atynt yn y gorffennol trwy adrannau cleifion allanol ysbytai. Erbyn hyn, mae rhai llawdriniaethau yn cael eu cyflawni yn y feddygfa leol, heb yr angen i'r claf fynd i'r ysbyty.

Yn yr un modd, rydym wedi gwneud ymdrech fawr i drawsnewid fferyllfeydd cymunedol i ddarparu gwasanaethau a ddarparwyd yn draddodiadol gan feddygon teulu. Erbyn hyn, mae pob fferyllfa yn gallu darparu'r Gwasanaeth Mân Anhwylderau, ac mae llawer yn adolygu'r defnydd o feddyginiaethau, gan gynnwys ar ôl i'r claf gael ei ryddhau o'r ysbyty, yn rhoi brechiadau ffliw ac yn darparu cyngor a chymorth ynghylch rhoi'r gorau i ysmegu ac atal cenhedlu brys. Trwy symud gwasanaethau o'r fath i'n cymunedau, rydym wedi sicrhau bod cyngor a chymorth proffesiynol ar gael yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, ynghyd â rhyddhau meddygon teulu i ganolbwyntio ar ymdrin â chleifion ag anghenion iechyd mwy cymhleth.

Mae gan fferyllfeydd cymunedol gyfraniad allweddol i'w wneud at lywio a chyfrannu at welliannau ym maes iechyd y cyhoedd. Maent wedi'u lleoli mewn pentrefi, trefi a chanol dinasoedd ledled Cymru. Mae llawer ohonynt ar agor chwe ac weithiau saith diwrnod yr wythnos. Fel arfer, fferyllfeydd cymunedol yw pwynt cyswllt cyntaf cleifion gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Felly, maent mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael i bobl ifanc ac i gyfrannu at leddfu'r pwysau ar amser meddygon teulu, ynghyd ag atgyfeirio cleifion o wasanaethau ysbyty i wasanaethau mwy priodol yn y gymuned.

Mae'r system reoleiddio bresennol wedi bod ar waith ers dros 27 mlynedd, ac nid yw'n adlewyrchu mwyach y ffordd mae rôl fferyllfeydd cymunedol wedi newid dros y cyfnod hwnnw.

Bydd Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn cyflwyno'r gofyniad i bob bwrdd iechyd gynnal a chyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol ar gyfer ei ardal a phenderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn erbyn yr asesiad hwnnw. Maent hefyd yn cyflwyno trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri telerau gwasanaeth gan fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG.

Er mwyn ehangu rôl fferyllfeydd cymunedol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, mae cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol yn gwneud newid sylfaenol i'r ffordd mae penderfyniadau ynghylch gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn cael eu gwneud gan fyrddau iechyd, gan newid o ddull a sbardunir gan geisiadau gan contractwyr ac sy'n canolbwyntio ar roi presgripsiynau i ddull sy'n effro ac yn ymateb i anghenion fferyllol ehangach cymunedau lleol.

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn ystyried diwygio'r meini prawf y mae'n rhaid i bobl eu bodloni er mwyn darparu gwasanaethau fferyllol, a alwyd yn 'rheoli mynediad' ond sydd bellach yn cael ei alw'n 'mynediad i'r farchnad', ac rwy'n credu bod hynny'n adlewyrchu'n well y ffordd mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu llywodraethu.

Mae'r Rheoliadau newydd yn ategu'r mesurau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd ers 2017 i weddnewid darpariaeth Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol fel bod mwy o wasanaethau clinigol yn cael eu darparu gan fferyllfeydd cymunedol. Rwy'n ffyddiog y bydd cymunedau yn elwa ar y newidiadau arfaethedig i'r ffordd mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu cynllunio yng Nghymru i ddiwallu anghenion cymunedau lleol yn well.

Edrychaf ymlaen at dderbyn ymatebion gan gymaint o bobl â phosibl o bob cwr o Gymru.

Vaughan Gething AC

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

MANYLION YR YMGYNGHORIAD

Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu manylion cynigion Llywodraeth Cymru i newid y ffordd mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu yng Nghymru trwy gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol.

Bydd y Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 drafft arfaethedig (Rheoliadau 2020) yn cyflwyno'r gofyniad ar i fyrddau iechyd gynnal asesiadau o anghenion fferyllol ac, o ganlyniad, newid y meini prawf ar gyfer gwneud ceisiadau gan y bobl hynny sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Byddant yn diddymu a disodli Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013).

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r newidiadau hynny i'r fframwaith rheoleiddio presennol, ond nid yw'n cwmpasu pob un o ddarpariaethau Rheoliadau drafft 2020 gan nad oes angen diweddarau pob un o'r darpariaethau. Mae copi o Reoliadau drafft 2020 ynghlwm wrth yr ymgynghoriad hwn.

Paratowyd y ddogfen ymgynghori hon gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n berthnasol mewn perthynas â Chymru yn unig.

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Cael barn byrddau iechyd, pobl a all wneud cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG neu wasanaethau meddygon fferyllol, cyrff proffesiynol â diddordeb yng ngwasanaethau fferyllol y GIG, rhanddeiliaid eraill a'r cyhoedd ar Reoliadau drafft 2020 a gynigir gan Weinidogion Cymru.

I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb?

Bydd y newidiadau arfaethedig yn arbennig o berthnasol i fyrddau iechyd, i bobl sydd eisiau gwneud cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG ac i gyrff cynrychiadol.

Mae cwestiynau'r ymgynghoriad i'w gweld ar ddiwedd y Crynodeb, ar dudalen XX.

Cyflwyniad

Cefndir

Mae Rheoliadau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 yn amlinellu'r trefniadau presennol, a elwir yn 'rheoli mynediad', ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Yn ogystal ag amlinellu'r amodau sy'n caniatáu i fferyllwyr wneud cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG, a'r telerau ac amodau y darperir y gwasanaethau hynny oddi tanynt, mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth arbennig ar gyfer ardaloedd gwledig ac yn nodi'r amgylchiadau lle gall meddygon yn yr ardaloedd hynny wneud cais am yr hawl i ddarparu gwasanaethau fferyllol i'w cleifion. Fel arfer, gelwir y rhain yn 'feddygon fferyllol'.

Mae tri phrif ddarparwr gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru:

- Fferyllfeydd cymunedol
- Meddygon fferyllol
- Contractwyr cyfarpar fferyllol

Yn ogystal, mae nifer fach o fferyllfeydd nad ydynt yn darparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn rhestr fferyllol y bwrdd iechyd ac ni allant ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG, ond gallant gyflenwi meddyginiaethau dros y cownter.

Mae dros 700 o fferyllfeydd cymunedol yn darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru. Er bod yr union ffigur yn newid o flwyddyn i flwyddyn, mae'r trefniadau presennol sy'n llywodraethu gwasanaethau fferyllol y GIG wedi arwain at farchnad sefydlog heb lawer o newid net yn niferoedd y fferyllfeydd cymunedol dros amser. Dros y deng mlynedd diwethaf, nid yw niferoedd y fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru wedi newid rhyw lawer.

Mae tua 79.9 miliwn o bresgripsiynau yn cael eu rhagnodi mewn fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru bob blwyddyn. Ar ben hynny, mae fferyllfeydd yn fanwerthwyr stryd fawr y mae pobl nad ydynt yn sâl yn ymweld â nhw'n rheolaidd. Felly, mae pob ymweliad yn gyfle i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd am eu ffordd o fyw ac i wneud cyfraniad at wella eu hiechyd a'u llesiant.

Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng amddifadedd a niferoedd y fferyllfeydd, gyda fferyllfeydd yn fwy cyffredin mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd, sy'n golygu bod mynediad yn well ar y cyfan mewn ardaloedd lle mae'r angen mwyaf¹. Yn ogystal, mae meddygon fferyllol yn gwasanaethu lleoliadau gwledig yn bennaf.

Mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu amgylchedd cyfleus a llai ffurfiol i'r rhai na allant ymweld â mathau eraill o wasanaethau iechyd, neu nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, mae llawer yn darparu cyngor ar atal cenhedlu brys, rhoi'r gorau i ysmegu a chynghor ar iechyd rhywiol ac, yn 2012, Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i gyflwyno

¹ [Distribution of community pharmacies and deprivation in Wales](#)

brechiad ffliw tymhorol am ddim i bobl 65 oed a hŷn neu grwpiau sy'n wynebu risg, mewn fferyllfeydd cymunedol yn genedlaethol.

Y system bresennol

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol yn gweithredu ynddo trwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol, a rhaid iddynt gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau lleol. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad y fferyllfeydd yn eu hardaloedd.

O dan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (Deddf 2006), y byrddau iechyd sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG, ynghyd ag agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG. Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys eiddo fferyllol ar restrau fferyllol yn caniatáu i'r fferyllfa ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn yr eiddo hwnnw.

Mae'r trefniadau hyn yn llywodraethu darpariaeth gwasanaethau fferyllol y GIG, yn hytrach na'r hawl i agor a chynnal busnes fferylliaeth yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ledled y DU, sef Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau eang i wneud rheoliadau a chyhoeddi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n llywodraethu manylion system gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nodi'r telerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr y GIG a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y mae'n rhaid ei fodloni cyn y gall bwrdd iechyd gymeradwyo cais am i fferyllfa gael ei chynnwys ar y rhestr fferyllol, neu ddiwygio manylion fferyllfa sydd wedi'i chynnwys ar y rhestr fferyllol.

Ar hyn o bryd, mae'r personau hynny sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn cyflwyno cais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yna, mae'r bwrdd iechyd yn penderfynu a yw'r cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Mae Rheoliadau 2013 yn caniatáu i benderfyniad y bwrdd iechyd gael ei herio trwy gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru.

Felly, mae'r system bresennol o ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn cael ei sbarduno gan y rhai sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Nhw sy'n penderfynu pa wasanaethau y maent eisiau eu darparu ac ym mha leoliad.

Mae hyn yn golygu bod y system bresennol yn ymatebol i geisiadau ac nad yw byrddau iechyd yn gallu cynllunio ble mae fferyllfeydd wedi'u lleoli na chyfarwyddo pa wasanaethau y mae'n rhaid eu darparu yn y lleoliadau hynny.

Y sail dros newid

Yn 2010, sefydlodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio i ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan broffesiynau iechyd heblaw fferyllwyr (e.e. meddygon) ac i wneud argymhellion ar gyfer newid y deddfwriaeth, os yn briodol, i greu system gost-ffeithiol a chynaliadwy tymor hir a fyddai'n galluogi cleifion i gael mynediad priodol at wasanaethau fferyllol.

Yn 2011, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nod yr ymgynghoriad, *Proposals to reform and modernise the National Health Service (Pharmaceutical Services) Regulations 1992*, oedd cael barn pobl ar gynigion i gyflwyno dull newydd o benderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru a fyddai'n fwy seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen creu a chynnwys pwerau priodol yn Neddf 2006 er mwyn gwneud newid o'r fath.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013, ond nid oedd yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol.

Mewnosododd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) adran 82A yn Neddf 2006 sy'n darparu ar gyfer dyletswydd newydd ar i fyrddau iechyd yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn amlinellu gofynion asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru. Mae Deddf 2017 yn diwygio adran 83 o Ddeddf 2006 hefyd fel y gall rheoliadau a wneir yn unol ag adran 83 ddarparu seiliau i dynnu person oddi ar y rhestr fferyllol nad ydynt yn gysylltiedig ag addasrwydd person i ymarfer (h.y. system ymadael â'r farchnad).

Yr effaith fwriedig a deilliannau buddiol

Effaith fwriedig cyflwyno anghenion fferyllol yw gwella'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol trwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau yn ofalus ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cyfateb i'r anghenion hynny. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull mwy integredig i nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad yr holl ddarparwyr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ble mae angen fferyllfeydd ychwanegol, ble mae darparwyr presennol yn diwallu anghenion fferyllol yn ddigonol a ble mae angen i fferyllfeydd presennol ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

Bydd y newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr fferyllfeydd, gan leihau risg y busnes a'u galluogi i fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd.

Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn dod yn fwy ymatebol hefyd i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau yn effeithiol i ddiwallu anghenion fferyllol a nodir. Lle mae diffyg ansawdd neu ddarpariaeth gyson, bydd byrddau iechyd yn gallu rhoi mesurau gwella ar waith. Gallai'r rhain gynnwys cymryd camau yn erbyn rhai fferyllfeydd am dorri telerau ac amodau gwasanaeth dro ar ôl tro. Dylai hyn arwain at fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau yn fwy cyson ac i safon uwch, a sicrhau bod fferyllfeydd yn darparu gwasanaethau mewn lleoliadau lle mae eu hangen. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â chynnwys fferyllfeydd newydd ar y rhestrau fferyllol yn fwy tryloyw. Yn y pen draw, bydd y newidiadau yn arwain at wella ansawdd a chysondeb gwasanaethau fferyllol y GIG ledled Cymru.

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddio

Mae adran 80 o Ddeddf 2006 yn rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a amlinellir yn isadrannau 80(3)(a) i (d). Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon fferyllol yw'r gwasanaethau fferyllol craidd hyn yn y bôn. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

Mae adran 81 o Ddeddf 2006 yn amlinellu trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Mae gwasanaethau fferyllol ychwanegol yn cael eu diffinio fel gwasanaethau nad ydynt yn berthnasol i adran 80. Mae adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd (i) i'w gwneud hi'n ofynnol iddo drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol, neu (ii) i awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol os yw'n dymuno gwneud hynny.

Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â darparu gwasanaethau fferyllol ac, ymysg pethau eraill, yn amlinellu'r gofyniad ar i reoliadau ei gwneud hi'n ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol ac yn amlinellu'r profion y mae'n rhaid i'r bobl hynny sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol eu pasio er mwyn gallu gwneud hynny (y 'prawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn amlinellu gofyniad ar i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrddau iechyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan reoliadau a wnaed o dan adran 83.

Gwnaeth Rhan 7 o Ddeddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. Mewnosododd adran 111 o Ddeddf 2017 adran 82A newydd yn Neddf 2006, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol. Daeth Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 Ran 7 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, gall Gweinidogion Cymru fynd ati bellach i wneud is-ddeddfwriaeth yn amlinellu gofynion asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru.

Bydd Rheoliadau 2013 yn cael eu diddymu a'u disodli gan Reoliadau 2020. Mae Rhan 2 o Reoliadau drafft 2020 yn gosod gofynion cyfreithiol ar fyrddau iechyd i gwblhau asesiadau o anghenion fferyllol.

Y bwriad yw i Reoliadau 2020 ddod i rym ar 1 Ebrill 2020. Unwaith i Reoliadau 2020 ddod i rym, bydd gan fyrddau iechyd chwe mis i baratoi a chyhoeddi eu hasesiad o anghenion fferyllol.

Y Broses Ddeddfwriaethol

Mae rhan o'r diwygiadau a wnaed i Ddeddf 2006 gan Ddeddf 2017 yn mynnu na ellir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau cyntaf yn unol ag adran 82A (asesiadau o anghenion fferyllol) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i gyflwyno gerbron y

Cynulliad ac wedi'i gymeradwyo ganddo. Felly, bydd Rheoliadau 2020 yn dilyn gweithdrefn ddeddfwriaethol gadarnhaol y Cynulliad.

Datblygu'r gofynion manwl

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal asesiad o anghenion fferyllol ac adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i wasanaethau fferyllol y GIG. Mae'r gweithgor, sydd wedi cyfarfod droeon ers ei sefydlu, yn cynnwys arweinwyr fferyllfeydd byrddau iechyd sydd â gwybodaeth am y system rheoli mynediad bresennol ac arbenigedd mewn fferyllfeydd cymunedol, arweinwyr (fferyllfeydd) gofal sylfaenol Partneriaeth Cydwasanaethau'r GIG, sydd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar geisiadau rheoli mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar asesiadau o anghenion fferyllol, gan gynnwys y cynigion canlyniadol yn Rheoliadau 2020.

Effaith ar Fusnesau

Rhagdybir y bydd rhaid i bob person sydd eisiau darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru (yn enwedig fferyllfeydd manwerthu lluosog a chenedlaethol) fuddsoddi mewn deall y ddeddfwriaeth newydd.

Rhagwelir y bydd yna gost ymgyfarwyddo untro fach i fusnesau; lle bydd rhaid i fusnesau ddarllen a deall y Rheoliadau.

Ni ragwelir y bydd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effaith arall ar weithrediad busnesau sy'n darparu gwasanaethau fferyllol y GIG o ddydd i ddydd.

Asesiadau o Anghenion Fferyllol

Cefndir

Mae'r system reoleiddio bresennol wedi bod ar waith ers mwy na 27 mlynedd, ac nid yw'n adlewyrchu'n ddigonol y ffordd mae rôl fferyllfeydd wedi newid dros y cyfnod hwnnw. Dros y 10 mlynedd diwethaf, nid yw niferoedd fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru wedi newid rhyw lawer, ond mae nifer y presgripsiynau wedi tyfu dros 50% (o 53.1 miliwn yn 2005/06 i 79.9 miliwn yn 2017/18).

O dan y trefniadau presennol, wrth benderfynu ar geisiadau, mae byrddau iechyd ond yn ystyried y gwasanaethau fferyllol a ddiffinnir o dan adran 80 o Ddeddf 2006. Yn gyffredinol, mae hyn ond yn cyfeirio at roi presgripsiynau. Yr ymgeiswyr sy'n gyfrifol am benderfynu pryd i wneud ceisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol.

Mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu mwy a mwy o wasanaethau ychwanegol, gan gynnwys darparu dulliau atal cenhedlu brys, brechiadau ffliw a chymorth i roi'r gorau i ysmegu. Ar ben hynny, ers 2017 mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Fframwaith Cytundebol Fferylliaeth Gymunedol (CPCF) i gynnwys darparu mwy o wasanaethau clinigol, ac mae wedi ail-ffurfweddu ei chyllid i gyfateb i'r model hwn o ran darparu gwasanaethau.

Ar hyn o bryd, mae penderfyniadau ynghylch a yw fferyllfeydd yn cael darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn cael eu gwneud yn seiliedig ar a oes mynediad digonol i fferyllfeydd ar gyfer rhoi presgripsiynau, yn hytrach nag ar a yw gwasanaethau ychwanegol yn cael eu cynnig neu a oes eu hangen. O ganlyniad, efallai na fydd fferyllfeydd sydd eisiau cynnig gwasanaethau ychwanegol yn gallu cael mynediad i'r farchnad, gan nad yw'r prawf mynediad i'r farchnad yn cydnabod y gwasanaethau ychwanegol hyn ac a fyddent yn cefnogi diwallu anghenion iechyd lleol.

Yn olaf, mae darpariaethau yn Neddf 2006 sy'n caniatáu i fwrdd iechyd dynnu person oddi ar restr fferyllol os oes pryderon ynghylch addasrwydd y person hwnnw i ymarfer. Amlinellir y materion addasrwydd hyn yn adran 107(2) i (4) o Ddeddf 2006, ac maent yn ymwneud â sefyllfaoedd lle pennir nad yw person yn addas i gael ei gynnwys ar y rhestr fferyllol mwyach am resymau twyll, anaddasrwydd neu effeithlonrwydd y ddarpariaeth gwasanaethau. Nid oes unrhyw bwerau clir yn y Rheoliadau presennol i dynnu person neu gofnod mewn perthynas ag eiddo arall oddi ar restr fferyllol am resymau eraill, yn benodol y rhai sy'n ymwneud â pherfformiad a darparu gwasanaethau. Mae Rheoliadau drafft 2020 yn darparu pwerau o'r fath ac yn cyflwyno cosbau am berfformiad gwael a system ymadael â'r farchnad.

Wrth gyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol, bydd bwrdd iechyd yn gwneud datganiad o ble y mae'n credu y mae angen gwasanaethau fferyllol a ble yr hoffai i gontractwyr presennol gynyddu eu darpariaeth; adleoli eiddo ac, o ganlyniad, sicrhau dosbarthiad eiddo gwell; neu wneud cais i agor fferyllfa ychwanegol.

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Rhan 1 – Dehongliad

Mae Rhan 1 yn amlinellu'r diffiniadau ar gyfer dibenion y Rheoliadau drafft. Mae rhai mân welliannau i'r adran hon hefyd sy'n diwygio diffiniadau presennol neu'n mewnosod diffiniadau newydd o ganlyniad i gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol, ac mae rhai eraill, er enghraifft, yn ymwneud â newidiadau i ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd a wnaed o ganlyniad i fwriad y DU i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r diffiniad o wasanaethau fferyllol wedi'i newid i gynnwys yr holl wasanaethau fferyllol sy'n berthnasol o dan adrannau 80 ac 81 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, ac mae'n cynnwys gwasanaethau cyfeiriedig.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r holl wasanaethau a ddarperir o dan adrannau 80 ac 81 o Ddeddf y GIG (Cymru) gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau fferyllol at ddibenion y Rheoliadau?

Rhan 2 – Aseidiadau o anghenion fferyllol

Mae Rhan 2 yn amlinellu'r gofynion yn ymwneud â chynhyrchu asesiadau o anghenion fferyllol.

Gofyniad i gynnal asesiad o anghenion fferyllol

Mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd gwblhau a chyhoeddi asesiad o'r angen am wasanaethau fferyllol yn ei ardal (gweler Rheoliad 3(1)²).

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl wasanaethau fferyllol a ddarperir gan bobl ar y rhestr fferyllol, y broses o roi cyffuriau a chyfarpar gan berson ar y rhestr meddygon fferyllol a gwasanaethau fferyllol lleol a ddarperir o dan gynllun peilot (gweler Rheoliad 3(2)).

Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl wasanaethau fferyllol, ac a oes unrhyw bobl eraill sy'n darparu'r gwasanaethau hyn y dylid eu hystyried?

Gwybodaeth i'w chynnwys mewn Aseidiadau o Anghenion Fferyllol

Rhaid i aseidiadau o anghenion fferyllol gynnwys gwybodaeth benodol (gweler Rheoliad 4).

² Mae pob cyfeiriad at reoliad yn yr adran hon yn cyfeirio at reoliadau yn Rheoliadau drafft y GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn Atodiad 1.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn asesiad o anghenion fferyllol wedi'i hamlinellu yn Atodlen 1 i Reoliadau 2020, ac yn cynnwys:

- Y ddarpariaeth gwasanaethau bresennol
- Bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau
- Gwasanaethau perthnasol eraill: y ddarpariaeth bresennol
- Gwasanaethau rhagnodi meddyginiaethau
- Gwasanaethau eraill y GIG, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan fwrdd iechyd, meddygon fferyllol ac ati.
- Esboniad o sut y gwnaed yr asesiad, gan gynnwys sut y mae wedi penderfynu ar yr ardaloedd yn ei ardal, a sut y mae wedi ystyried anghenion y gwahanol ardaloedd a grwpiau poblogaeth yn ei ardal
- Map yn nodi ble mae gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu ar hyn o bryd

Rhaid i bob bwrdd iechyd sicrhau bod y map y mae'n ei gynnwys yn ei asesiad o anghenion fferyllol yn gyfredol, cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol (heb angen ailgyhoeddi'r asesiad cyfan neu gyhoeddi datganiad atodol) (gweler Rheoliad 4).

Cwestiwn 3: Ydych chi'n credu bod unrhyw beth y gellid ei ychwanegu at y rhestr o wybodaeth ofynnol i wella cynnwys asesiad o anghenion fferyllol?

Cyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol ac asesiadau dilynol

Rhaid i fwrdd iechyd gyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion fferyllol o fewn 6 mis i'r dyddiad y daeth y Rheoliadau i rym (gweler Rheoliad 5).

Ar ôl iddo gyhoeddi ei asesiad cyntaf o anghenion fferyllol, rhaid i bob bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad o'i asesiad diwygiedig unrhyw bryd o fewn 5 mlynedd i gyhoeddi ei asesiad blaenorol o anghenion fferyllol, gan ystyried unrhyw asesiadau eraill o anghenion y mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd statudol i'w cyhoeddi (gweler Rheoliad 6(1)), er enghraifft, Asesiad o Anghenion Iechyd y bwrdd iechyd yn rhinwedd y gofynion a amlinellir yn y Datblygiad Cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n credu bod y cyfnod o bum mlynedd rhwng asesiadau yn briodol?

Ar ôl nodi newidiadau i'r amgylchiadau yn ei ardal a all olygu y bydd angen diwygio ei asesiad o anghenion fferyllol, rhaid i'r bwrdd iechyd fynd ati, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i wneud asesiad diwygiedig oni bai ei fod yn fodlon y byddai'n anghymesur gwneud hynny (gweler Rheoliad 6(2)).

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai'r bwrdd iechyd fod o dan ddyletswydd i ddiwygio ei asesiad o anghenion fferyllol unwaith iddo ystyried bod newidiadau sylweddol i'r amgylchiadau yn ei ardal; er enghraifft, datblygiad tai mawr?

Ymgynghoriad ar asesiadau o anghenion fferyllol

Wrth wneud asesiad at ddibenion cyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol, rhaid i bob bwrdd iechyd ymgynghori ar gynnwys yr asesiad gyda'r bobl ganlynol:

- Y Pwyllgor Fferyllol Lleol
- Y Pwyllgor Meddygol Lleol ar gyfer ei ardal, ac unrhyw Bwyllgor Meddygol Lleol cyfagos a all fod â diddordeb
- Y bobl ar ei restrau fferyllol a'i restr meddygon fferyllol (os oes ganddo un)
- Unrhyw fferyllfa cynllun peilot y mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud trefniadau gyda hi ar gyfer darparu unrhyw wasanaethau fferyllol lleol
- Unrhyw berson y mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud trefniadau gydag ef ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol
- Unrhyw ddarparwr gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ei ardal
- Unrhyw Gyngor Iechyd Cymuned neu grŵp cleifion, defnyddwyr neu gymunedol perthnasol yn ei ardal y mae'r bwrdd iechyd yn credu bod ganddo ddiddordeb mewn darparu gwasanaethau fferyllol yn ei ardal
- Unrhyw Awdurdod Lleol ar gyfer ei ardal
- Unrhyw Ymddiriedolaeth y GIG yn ei ardal
- Unrhyw fwrdd iechyd cyfagos

(gweler Rheoliad 7(1)).

Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno gyda'r rhestr o bobl y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ar gynnwys asesiad?

Cwestiwn 7: A oes unrhyw bobl eraill y dylid ymgynghori â nhw?

Rhaid i ddrafft o'r asesiad arfaethedig o anghenion fferyllol gael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd am o leiaf 60 diwrnod (gweler Rheoliad 7(2)).

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi gwybod i'r bobl a restrir fel ymgynghoreion yn rheoliad 7(1) (a amlinellir uchod) o fewn 24 awr i gyhoeddi'r asesiad drafft o anghenion fferyllol bod drafft o'r asesiad arfaethedig o anghenion fferyllol wedi'i gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd, a'r dyddiad y mae'n rhaid i unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad ddod i law erbyn (gweler Atodiad 7(3)).

Os bydd ymgynghorai yn gofyn am gopi caled o'r asesiad drafft o anghenion fferyllol, rhaid i'r bwrdd iechyd fynd ati cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac o fewn 14 diwrnod, i gyflenwi copi caled o'r drafft i'r person hwnnw (am ddim) (gweler Rheoliad 7(4)).

Lle hysbysir bwrdd iechyd yn unol â pharagraff (3) a lle mae Pwyllgor Meddygol Lleol ar gyfer ei ardal sy'n wahanol i'r Pwyllgor Meddygol Lleol yr ymgynghorwyd ag ef o dan baragraff (1)(b), rhaid i'r bwrdd iechyd a hysbyswyd ymgynghori â'r Pwyllgor hwnnw cyn ymateb i'r ymgynghoriad a rhoi sylw priodol i unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd gan y Pwyllgor wrth ymateb i'r ymgynghoriad (gweler Rheoliad 7(5)).

Bydd y cyfnod ymgynghori 60 diwrnod yn gyfle i bartïon â buddiant herio canfyddiadau'r asesiad drafft o anghenion fferyllol ac i'r bwrdd iechyd ystyried gwelliannau i'w asesiad cyn ei gyhoeddi. Nid oes hawl i apelio mewn perthynas ag asesiad drafft arfaethedig o anghenion fferyllol neu'r asesiad cyhoeddedig terfynol. Felly, mae'n bwysig i bartïon â buddiant ymgysylltu ag ymgynghoriad y byrddau iechyd. Efallai na fydd ymgynghorai yn cytuno â chanfyddiadau bwrdd iechyd, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, i nodi bylchau neu fel arall yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol. Er enghraifft, efallai y bydd gan yr ymgynghorai wybodaeth leol am amgylchiadau'r ardal na ystyriwyd yn ystod yr asesiad, neu am sut mae'r boblogaeth leol yn cael mynediad at wasanaethau yn yr ardal dan sylw. Felly, mae'r ymgynghoriad ar y drafft arfaethedig yn gyfle pwysig i godi unrhyw ffactorau y mae'r ymgynghorai yn credu y dylai'r bwrdd iechyd eu hystyried cyn cyhoeddi ei asesiad terfynol o anghenion fferyllol.

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer y bwrdd iechyd yn cyhoeddi ei asesiad?

Materion i'w hystyried wrth wneud asesiadau

Wrth baratoi eu hasesiad o anghenion fferyllol, rhaid i fyrddau iechyd roi sylw i'r canlynol:

- unrhyw asesiad o anghenion perthnasol a baratowyd o dan adran 82A o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006 (h.y. asesiadau blaenorol o anghenion fferyllol);
- demograffeg yr ardal
- anghenion amrywiol pob un o'r ardaloedd yn ardal y bwrdd iechyd
- effaith gwasanaethau fferyllol a ddarperir o dan drefniadau gyda byrddau iechyd cyfagos
- effaith gwasanaethau fferyllol neu wasanaethau eraill y GIG a ddarperir y tu allan i'w ardal;

(gweler Rheoliad 8(1)).

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried unrhyw anghenion tebygol yn y dyfodol hefyd (gweler Rheoliad 8(2)).

Cwestiwn 9: A oes unrhyw ffactorau eraill y dylai bwrdd iechyd roi sylw iddynt wrth wneud asesiad?

Mynediad i'r Farchnad

Rhan 3 – Rhestrau fferyllol a rhestrau meddygon fferyllol

Mae Rhan 3 yn amlinellu'r gofynion ar i fyrddau iechyd baratoi a chynnal rhestrau fferyllol a rhestrau meddygon fferyllol ar gyfer eu hardal.

Paratoi a chynnal rhestrau fferyllol

Bydd hi'n parhau'n ofynnol i fyrddau iechyd baratoi a chynnal rhestr fferyllol (gan gynnwys contractwyr cyfarpar fferyllol) a rhestr meddygon fferyllol (gweler Rheoliadau 10 ac 11).

Bydd unrhyw restr fferyllol (gan gynnwys contractwyr cyfarpar fferyllol) a rhestr meddygon fferyllol sy'n rhestr gyfredol cyn i Reoliadau 2020 ddod i rym yn parhau i gael eu defnyddio pan fydd Rheoliadau 2020 yn dod i rym (gweler Rheoliadau 10(4) ac 11(6)).

Cwestiwn 10: Ydych chi'n credu y byddai'n briodol cynnal y rhestrau fferyllol a'r rhestrau meddygon fferyllol presennol pan fydd Rheoliadau 2020 yn dod i rym?

Rhan 4 – Penderfynu ar ardaloedd rheoledig

Mae Rhan 4 yn caniatáu i fyrddau iechyd benderfynu ar geisiadau sy'n ceisio diffinio rhannau o ardal y bwrdd iechyd fel ardaloedd rheoledig.

Ardaloedd sy'n ardaloedd rheoledig

Mae unrhyw ardal a ddiffiniwyd fel ardal reoledig at ddibenion Rheoliadau 2013 yn parhau i fod yn ardal reoledig at ddibenion Rheoliadau 2020 (gweler Rheoliad 13).

Cwestiwn 11: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnal ardaloedd rheoledig a ddiffiniwyd yn flaenorol?

Rhan 5 - Ceisiadau gan fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG i gael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol neu ddiwygio'r rhestr fferyllol

Mae Rhan 5 yn amlinellu'r mathau o geisiadau mewn perthynas â chael eu cynnwys ar y rhestr fferyllol neu ddiwygio'r rhestr fferyllol, a'r profion y mae'n rhaid i fwrdd iechyd eu cymhwyso i benderfynu ar y ceisiadau hynny.

Cynnwys ar y rhestr fferyllol a Chydsyniad Rhagarweiniol

Y sefyllfa bresennol o dan Reoliadau 2013 yw bod rhaid i unrhyw gais am fferyllfa neu feddygfa deulu fferyllol newydd fodloni'r bwrdd iechyd y byddai'n angenrheidiol neu'n

hwylus iddo ei gymeradwyo (y “*prawf angenrheidiol neu hwylus*”). Yn y pen draw, rhaid i contractwr gyflwyno'r achos i'r bwrdd iechyd nad yw'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yn ddigonol i ddiwallu angen poblogaeth yr ardal.

Rydym yn bwriadu newid y prawf y mae'n rhaid i gais ei fodloni i un sy'n dibynnu ar asesiad diweddaraf y bwrdd iechyd o anghenion fferyllol. Os bydd bwrdd iechyd yn nodi angen am wasanaethau fferyllol mewn lleoliad penodol, gall ceisiadau i ddiwallu'r angen hwnnw gael eu gwneud a'u cymeradwyo. Fodd bynnag, os na nodir angen yn yr asesiad o anghenion fferyllol, mae'r cais yn annhebygol o gael ei gymeradwyo. Yn Rheoliadau 2013, bydd pob cyfeiriad at y prawf 'Angenrheidiol neu Hwylus' yn cael eu disodli gan y prawf newydd canlynol:

“... gall y Bwrdd Iechyd Lleol ond gymeradwyo'r cais os yw'n fodlon y byddai'n diwallu angen am wasanaethau fferyllol, neu wasanaeth fferyllol o fath penodol, yn ardal y Bwrdd Iechyd Lleol perthnasol ac a fyddai wedi'i gynnwys yn asesiad y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw o anghenion fferyllol...” (e.e. gweler Rheoliad 16(1))

Cwestiwn 12: Ydych chi'n credu ei bod hi'n briodol newid y prawf o ganlyniad i gyflwyno asesiad o anghenion fferyllol?

Cwestiwn 13: A oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cymhwyso i'r prawf hwn?

Adleoli eiddo fferyllol

Efallai y bydd contractwr eisiau neu angen adleoli am amryw o resymau.

Ar hyn o bryd, rhaid i fwrdd iechyd gymeradwyo cais a wneir gan berson o dan reoliad 8(1)(b)(ii) o Reoliadau 2013 i adleoli o eiddo rhestredig i eiddo newydd lle mae'r person yn bwriadu darparu'r un gwasanaethau fferyllol os yw'n fodlon —

- (a) bod y newid yn adleoliad bach;
- (b) nad yw lleoliad yr eiddo newydd yn llai hygyrch o lawer i'r cleifion sydd wedi dod i arfer â chael mynediad i wasanaethau fferyllol yn yr eiddo presennol;
- (c) y bydd yr un gwasanaethau fferyllol yn cael eu darparu yn yr eiddo newydd ag sy'n cael eu darparu yn yr eiddo rhestredig;
- (d) na fydd darpariaeth y gwasanaethau fferyllol yn cael ei heffeithio (ac eithrio am gyfnod a gymeradwyir gan y Bwrdd Iechyd Lleol); ac
- (e) nad yw'r eiddo a nodir yn y ffurflen gais y mae'r person eisiau adleoli iddo yn eiddo y mae'r person wedi adleoli iddo dros dro o dan reoliad 15 (ceisiadau yn ymwneud ag adleoli dros dro).

Mae symud eiddo o dan y meini prawf uchod yn cael ei alw'n adleoliad bach.

Mae Rheoliadau 2020 yn dileu'r cysyniad o adleoliad bach.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod dau amgylchiad eang lle mae fferyllfeydd yn dymuno symud eiddo o fewn ardal bwrdd iechyd:

- (i) Lle bydd y symud yn diwallu angen a nodwyd yn yr asesiad o anghenion fferyllol e.e. symud dros bellter maith (gweler Rheoliad 19(2)(a)).
- (ii) Lle mae'r symud at ddibenion busnes ac nad yw'n diwallu angen am wasanaethau fferyllol a nodwyd yn asesiad y bwrdd iechyd o anghenion fferyllol e.e. oherwydd bod prydles adeilad wedi dod i ben (gweler Rheoliad 19(2)(b)).

Efallai y bydd fferyllfeydd eisiau symud eiddo rhwng byrddau iechyd cyfagos hefyd. Felly, mae Gweinidogion Cymru wedi caniatáu i gais gael ei wneud i'r bwrdd iechyd cyfagos a'i gymeradwyo os yw'r cais yn diwallu angen a nodwyd yn asesiad y bwrdd iechyd cyfagos o anghenion fferyllol, ac wedi sicrhau nad yw lleoliad yr eiddo newydd yn llai hygyrch o lawer i gleifion sydd wedi arfer cael mynediad at wasanaethau yn yr eiddo presennol (gweler Rheoliad 20).

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu adleoliad bach ar gyfer eiddo?

Cwestiwn 15: Ydych chi'n credu mai dim ond pan fo angen wedi'i nodi yn asesiad y bwrdd iechyd a chyn belled nad yw'n rhoi pobl sydd wedi arfer cael mynediad at wasanaethau yn y lleoliad presennol o dan anfantaes y dylid caniatáu symud rhwng ardaloedd bwrdd iechyd?

Adleoli eiddo fferyllol dros dro

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2013 yn cymhwyso cyfres safonol o feini prawf gweithdrefnol ar draws pob cais i gael eich cynnwys ar restrau fferyllol neu restrau meddygon fferyllol, neu i ddiwygio cofnod ar y rhestrau hynny; mae hyn yn cynnwys cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer gwneud sylwadau ar gais. Mae ceisiadau am adleoliad dros dro yn cael eu penderfynu gan y bwrdd iechyd yn unol ag Atodlen 2, felly bydd y penderfyniadau'n cael eu hoedi gan y cyfnod 30 diwrnod. Oherwydd yr amgylchiadau a fyddai'n gwneud adleoliad dros dro yn ofynnol, ni fwriadwyd i'r cyfnod 30 diwrnod fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch ceisiadau neu apelau yn ymwneud ag adleoliad dros dro.

I egluro'r sefyllfa, mae'r cyfnod o 30 diwrnod ar gyfer gwneud sylwadau ar gais ac apêl wedi'i ddileu o Reoliadau 2020 (gweler Atodlen 3 paragraff 8(4)).

Cwestiwn16: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y diwygiad canlyniadol hwn?

Rhan 6 – Ceisiadau gan feddygon fferyllol i gael eu cynnwys ar restrau meddygon fferyllol neu ddiwygio rhestrau meddygon fferyllol

Mae Rhan 6 yn amlinellu'r ceisiadau y gall meddygon eu gwneud er mwyn gallu bodloni'r amodau ar gyfer gwneud trefniadau gyda bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau fferyllol i'w cleifion cymwys mewn ardaloedd rheoledig.

Trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol gan feddygon

Ar hyn o bryd, mae sawl gwahanol fath o gais sy'n arwain at fferyllydd, contractwr cyfarpar fferyllol neu feddyg fferyllol yn cael ei gynnwys ar restrau fferyllol neu restrau meddygon fferyllol. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau am gydsyniad rhagarweiniol (ar gyfer cynnwys ar y rhestr fferyllol) a chydsyniad amlinellol (ar gyfer meddyg fferyllol).

Bydd y prawf presennol y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i ymgeiswyr gael eu cynnwys ar y rhestrau yn Rheoliadau 2013 yn cael ei newid i'w gwneud hi'n ofynnol i ymgeiswyr seilio eu ceisiadau ar angen penodol a nodwyd yn asesiad diweddaraf y bwrdd iechyd y maent yn gwneud cais iddo o anghenion fferyllol.

Ardaloedd rheoledig, lleoliadau neilltuedig a meddygon fferyllol

I alluogi amcanion cyflwyno asesiad o anghenion fferyllol i gael eu cymhwyso'n gyfartal ledled Cymru, roedd angen sicrhau bod yr un prawf yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â cheisiadau gan feddygon fferyllol ag a ddefnyddiwyd mewn perthynas â cheisiadau gan fferyllfeydd h.y. symud cymeradwyaeth cais i ble mae'n diwallu angen am wasanaethau fferyllol fel y nodwyd yn yr asesiad o wasanaethau fferyllol yn hytrach nag a yw'r cais yn cael ei asesu ar sail a yw'r ddarpariaeth gwasanaethau yn 'Angenrheidiol neu'n Hwylus'.

Felly, lle nad yw cais wedi'i wrthod o dan y prawf rhagfarn, rhaid i'r bwrdd iechyd wrthod cais oni bai ei fod yn fodlon y byddai'n diwallu angen am wasanaethau fferyllol, neu wasanaethau fferyllol o fath penodol, yn ardal yr ardal berthnasol ac sydd wedi'i gynnwys yn yr asesiad perthnasol o anghenion fferyllol ac y mae'r meddyg wedi gwneud cais am gydsyniad amlinellol ar ei gyfer (gweler Rheoliad 30(5)(d)).

Bydd unrhyw leoliadau a bennwyd fel lleoliadau neilltuedig neu ardaloedd rheoledig yn parhau i gael eu pennu felly (gweler Rheoliad 13), hyd nes iddynt gael eu hadolygu yn unol â Rheoliadau 2020.

Nid oes unrhyw newidiadau i'r rheolau ar gyfer lleoliadau neilltuedig nac i gymhwysiad y prawf rhagfarn.

Rhan 7 – Seiliau addaswydd, cynnwys ar restrau fferyllol a thynnu oddi ar restrau fferyllol

Mae Rhan 7 yn ymwneud â seiliau addaswydd, cynnwys ar restrau fferyllol a thynnu oddi ar restrau fferyllol. Mae'n darparu ar gyfer gohirio a gwrthod ceisiadau gan ymgeiswyr i gael eu cynnwys ar restr fferyllol am resymau addaswydd (rheoliadau 36 a 37), ynghyd â gwneud y broses o gynnwys ar restr fferyllol yn amodol ar amodau (rheoliad 38). Ar gyfer rhai materion addaswydd, gan gynnwys lle mae person wedi'i euogfarnu o drosedd yn y Deyrnas Unedig ac wedi cael dedfryd o garchar am dros chwe mis, rhaid i fwrdd iechyd dynnu person oddi ar restr fferyllol yn unol â rheoliad 40 (tynnu oddi ar restr fferyllol am resymau eraill).

Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r darpariaethau hyn.

Rhan 8 - Cynnwys yn amodol ar restrau fferyllol: amodau penodol nad ydynt yn ymwneud ag addaswydd na pherfformiad

Mae Rhan 8 yn amlinellu'r amodau a osodir ar fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG fel rhan o'u telerau gwasanaeth gyda'r bwrdd iechyd, sy'n cynnwys gofynion yn ymwneud â chydweithio gyda'r bwrdd iechyd i ddatrys anghydfod yn lleol (rheoliad 49). Mae'r amodau Rhan 8 hyn ar ben y prif delerau gwasanaeth ar gyfer fferyllwyr y GIG, sydd yn Atodlen 5, a chontractwyr cyfarpar y GIG, sydd yn Atodlen 6.

Oriau agor craidd

Darperir ar gyfer rhestru oriau craidd ar ddiwrnodau penodol ac ar adegau penodol, ac mae'n ofynnol i fferyllwyr a chontractwyr cyfarpar fferyllol ddarparu a pharhau i ddarparu'r gwasanaethau hynny ar y diwrnodau a'r adegau hynny (gweler Rheoliad 46(1) a (2)).

Amodau yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyfeiriedig

Os aeth fferylllydd neu gontractwr cyfarpar ati i ddarparu gwasanaeth cyfeiriedig wrth wneud cais, rhaid iddo ddarparu a pharhau i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw (gweler Rheoliad 47).

Amodau yn ymwneud â datrys yn lleol anghydfod dros delerau gwasanaeth

Un o'r amodau ar gynnwys fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG ar restr fferyllol yw ei fod yn gwneud pob ymdrech bosibl i gyfathrebu â'r bwrdd iechyd gyda'r nod o ddatrys unrhyw anghydfod yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r telerau gwasanaeth y darperir gwasanaethau fferyllol oddi tanynt (gweler Rheoliad 48).

Cwestiwn 17: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y meini prawf ar gyfer cynnwys ymgeiswyr ar y rhestr o dan amodau penodol?

Ymadael â'r Farchnad a chosbau am berfformiad gwael

Gall bwrdd iechyd gymeradwyo cais i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG os yw'n fodlon bod y cais yn diwallu angen am wasanaethau fferyllol a nodwyd yn yr asesiad o anghenion fferyllol ac wedi'i ddarparu yn unol â thelerau gwasanaeth y darparwyr. O fewn Rheoliadau drafft 2020, mae darpariaethau yn ymwneud â chosbau am berfformiad gwael ac ymadael â'r farchnad wedi'u cynnwys i gefnogi darpariaeth gwasanaethau fferyllol yn unol â chanfyddiadau asesiad o anghenion fferyllol.

Rhan 9 – Cosbau am berfformiad gwael ac Ymadael â'r Farchnad

Mae Rhan 9 yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion o dorri telerau gwasanaeth gan fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG (mae achosion o dorri telerau gan feddygon fferyllol yn cael eu trafod o dan eu trefniadau cyfochrog ar gyfer darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol i gleifion cofrestredig, y mae'n rhaid iddynt feddu arnynt er mwyn bod yn ddarparwyr gwasanaethau fferyllol). Yn y lle cyntaf, rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech resymol i ddatrys unrhyw anghydfod ynghylch telerau gwasanaeth sydd ganddo gyda fferylllydd neu gontractwr cyfarpar trwy ddatrys yr anghydfod yn lleol.

Lle na ellir datrys anghydfod rhwng fferylllydd y GIG, neu gontractwr cyfarpar y GIG, a'r bwrdd iechyd o dan y gweithdrefnau datrys anghydfod yn lleol (neu lle gellir osgoi'r weithdrefn honno), mae fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG yn wynebu'r posibilrwydd o gael hysbysiad torri amodau neu hysbysiad adfer, a chael taliad wedi'i dynnu'n ôl fel rhan o hynny (gweler rheoliadau 50 i 52). Mewn rhai achosion, gall methu â chydymffurfio â thelerau gwasanaeth dro ar ôl tro, neu fethiannau â chanlyniadau hynod ddifrifol, arwain at dynnu eiddo busnes fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG oddi ar y rhestr fferyllol berthnasol (gweler Rheoliad 53).

Datrys anghydfod yn lleol cyn cyflwyno hysbysiadau adfer neu hysbysiadau torri amodau

Cyn cyflwyno hysbysiad torri amodau neu hysbysiad adfer, rhaid i'r bwrdd iechyd wneud pob ymdrech resymol i gyfathrebu a chydweithio gyda Fferyllfa'r GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG gyda'r nod o ddatrys unrhyw anghydfod rhwng Fferyllfa'r GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG a'r bwrdd iechyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r telerau gwasanaeth (gweler Rheoliad 49(1)).

Nid yw hyn yn berthnasol lle mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod anghydfod yn ymwneud â mater sydd eisoes wedi bod yn destun datrysiad anghydfod rhwng y bwrdd iechyd a fferyllfa'r GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG ac nad oes unrhyw faterion newydd o sylwedd sy'n cyfiawnhau oedi o ran cyflwyno hysbysiad torri amodau; neu y byddai'n briodol mynd ati yn syth i gyflwyno hysbysiad:

- gan nad yw eiddo rhestredig ar agor neu nad ydynt wedi bod ar agor yn ystod oriau craidd neu oriau craidd atodol heb reswm da,
- i ddiogelu unrhyw bobl y mae fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG yn darparu gwasanaethau fferyllol ar eu cyfer, neu

- i ddiogelu'r bwrdd iechyd rhag colled ariannol perthnasol.

(gweler Rheoliad 49(3))

Gall fferylllydd neu gontractwr cyfarpar wahodd Pwyllgor Fferyllol Lleol (Fferylliaeth Gymunedol Cymru yng Nghymru) i gymryd rhan mewn ymdrechion i ddatrys yr anghydfod (gweler Rheoliad 49(2)).

Cwestiwn 18: A oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â datrys anghydfod yn lleol cyn cyflwyno hysbysiad torri amodau neu hysbysiad adfer?

Torri telerau gwasanaeth: hysbysiadau adfer

Lle mae fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG yn torri telerau gwasanaeth a lle bo modd adfer y toriad hwnnw, gall y bwrdd iechyd gyflwyno 'hysbysiad adfer' i'w gwneud hi'n ofynnol i Fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG adfer y toriad.

I fod yn ddilys, rhaid i 'hysbysiad adfer' gynnwys:

- Natur y toriad;
- Y camau y mae'n rhaid i fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG eu cymryd, i foddhad y bwrdd iechyd er mwyn adfer y toriad;
- Y cyfnod y mae'n rhaid i'r camau gael eu cymryd ynddo ('y cyfnod hysbysu'); ac
- Esboniad o sut y gall Fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG arfer ei hawl i apelio.

Ni ddylai'r cyfnod hysbysu fod yn llai na 30 diwrnod oni bai bod y bwrdd iechyd yn fodlon bod hysbysiad byrrach yn briodol:

- i ddiogelu unrhyw bobl y mae fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG yn darparu gwasanaethau fferyllol ar eu cyfer, neu
- i ddiogelu'r bwrdd iechyd rhag colled ariannol perthnasol.

(gweler Rheoliad 50(1) a (2) a (3))

Cwestiwn 19: A oes unrhyw wybodaeth arall y dylai hysbysiad adfer ei chynnwys?

Os yw'r toriad yn ymwneud â methu â darparu, neu fethu â darparu i safon resymol, wasanaeth y mae'n ofynnol i fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG ei ddarparu, gall yr hysbysiad adfer ei gwneud hi'n ofynnol i'r bwrdd iechyd dynnu'r taliad, neu ran o'r taliad, sy'n ddyledus i'r contractwr am y cyfnod hwnnw yn ôl.

Yn amodol ar y contractwr yn cymryd y camau i adfer y toriad, gall y bwrdd iechyd dynnu'r taliad, neu ran o'r taliad, sy'n ddyledus i'r contractwr yn ôl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Am unrhyw gyfnod pan mae'r contractwr wedi torri amodau, bydd y taliadau a dynnwyd yn ôl a briodolir i'r cyfnod hwnnw yn barhaol, ac
- Unwaith i'r contractwr gymryd y camau gofynnol, i foddhad y bwrdd iechyd, bydd unrhyw daliad a dynnwyd yn ôl a briodolir i'r cyfnod pan nad yw'r contractwr yn torri amodau mwyach yn cael ei adfer, cyn belled â bod y contractwr yn cyflwyno hawliad.

Gall y cyfnod y cyfeirir ato uchod fod yn hwy na'r cyfnod hysbysu.

Os bydd y bwrdd iechyd yn gwrthod adfer unrhyw daliad, neu ran o'r taliad, a dynnwyd yn ôl a hawliwyd amdano uchod, rhaid iddo hysbysu'r contractwr am y penderfyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan nodi ei resymau dros y penderfyniad ac esboniad o sut y gall y contractwr arfer ei hawl i apelio.

Gall bwrdd iechyd amrywio neu ddiddymu hysbysiad adfer unrhyw bryd ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

(gweler Rheoliadau 50 (4) i 50(8))

Cwestiwn 20: A yw'r telerau y gall y bwrdd iechyd dynnu taliad yn ôl am dorri telerau gwasanaeth oddi tanynt yn briodol?

Torri telerau gwasanaeth: hysbysiadau torri amodau

Lle mae fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG yn torri telerau gwasanaeth a lle nad oes modd adfer y toriad hwnnw, gall y bwrdd iechyd gyflwyno hysbysiad torri amodau i'w gwneud hi'n ofynnol i'r contractwr beidio ag ailadrodd y toriad.

I fod yn ddilys, rhaid i'r hysbysiad torri amodau gynnwys:

- natur y toriad
- esboniad o sut y gall Fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG arfer ei hawl i apelio.

(gweler Rheoliad 51(1) a (2))

Os yw'r toriad yn ymwneud â methu â darparu gwasanaeth, neu fethu â darparu gwasanaeth i safon resymol, gall y bwrdd iechyd dynnu'r taliad, neu ran o'r taliad, sy'n ddyledus i'r contractwr am y cyfnod hwnnw yn ôl.

Gall bwrdd iechyd amrywio neu ddi-ddymu hysbysiad torri amodau a gyflwynwyd yn unol â'r rheoliad hwn unrhyw bryd ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

Rhaid bod modd cyfiawnhau swm y taliad a dynnir yn ôl a rhaid iddo fod yn gymesur mewn perthynas â difrifoldeb y toriad a'r rheswm drosto.

Cwestiwn 21: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y broses o gyflwyno hysbysiadu adfer a hysbysiadu torri amodau?

Tynnu oddi ar y rhestr: achosion yn ymwneud â hysbysiadu adfer a hysbysiadu torri amodau

Gall y bwrdd iechyd dynnu fferylllydd y GIG a chontractwr cyfarpar y GIG oddi ar restr fferyllol, neu dynnu cofnod eiddo rhestredig penodol, os bydd y contractwr:

- Wedi methu â chymryd y camau a amlinellwyd mewn hysbysiad adfer a bod y bwrdd iechyd yn fodlon bod angen tynnu'r contractwr neu'r eiddo rhestredig er mwyn diogelu unrhyw berson y mae'r contractwr yn darparu gwasanaethau fferyllol ar ei gyfer.
Neu
- Wedi torri ei delerau gwasanaeth ac wedi derbyn hysbysiadu adfer neu hysbysiadu torri amodau dro ar ôl tro a bod y bwrdd iechyd yn credu ei bod hi'n debygol y bydd yn parhau i dorri'r telerau gwasanaeth heb reswm da.

Gall y bwrdd iechyd ond tynnu eiddo penodol o gofnod fferylllydd y GIG neu gontractwr cyfarpar y GIG ar restr fferyllol os yw'r holl doriadau perthnasol yn ymwneud â'r eiddo penodol hynny (Rheoliad 53(2)).

Rhaid bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad i dynnu rhywun oddi ar y rhestr fferyllol a rhaid iddo fod yn gymesur mewn perthynas â natur a difrifoldeb yr achosion o dorri'r telerau gwasanaeth a'r rheswm drostynt. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi cyfnod hysbysu o 30 diwrnod i'r contractwr cyn penderfynu ei dynnu oddi ar y rhestr (Rheoliad 53(6)).

Cwestiwn 22: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y meini prawf ar gyfer tynnu rhywun oddi ar restr fferyllol mewn perthynas â materion perfformiad?

Apelau yn erbyn ymadael â'r farchnad

Gall fferylllydd y GIG neu contractwr cyfarpar y GIG, o fewn 30 diwrnod i dderbyn hysbysiad gan y bwrdd iechyd, apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn penderfyniad bwrdd iechyd i:

- gyflwyno hysbysiad adfer
- cyflwyno hysbysiad torri amodau
- cymryd rhai camau penodol a gynhwyswyd mewn hysbysiad adfer
- hyd y cyfnod hysbysu a nodwyd mewn hysbysiad adfer
- tynnu taliad yn ôl
- swm y taliad a dynnir yn ôl
- peidio ag adfer taliad neu adfer swm llai o faint
- tynnu oddi ar y rhestr fferyllol

(gweler Rheoliad 54).

Cwestiwn 23: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar apelio yn erbyn penderfyniadau bwrdd iechyd mewn perthynas â materion perfformiad?

Rhan 10 - Taliadau i fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG

Mae Rhan 10 yn ymwneud â thaliadau i fferyllwyr y GIG a chontractwyr cyfarpar y GIG.

Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'r darpariaethau hyn.

Rhan 11 - Amrywiol

Mae Rhan 11 yn ymdrin â materion amrywiol, gan gynnwys darpariaethau trosiannol ar gyfer ceisiadau ac apelau a wnaed o dan Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Darpariaethau trosiannol

Bydd unrhyw gais a wnaed o dan Reoliadau 2013 a dderbynnir gan fwrdd iechyd ar neu cyn 31 Mawrth 2020 yn cael eu pennu yn unol â darpariaethau Rheoliadau 2013 hyd nes i benderfyniad terfynol gael ei wneud ar y cais hwnnw (gweler Rheoliad 63).

Am gyfnod o chwe mis o'r dyddiad y daw Rheoliadau 2020 i rym, ni fydd bwrdd iechyd yn gallu ystyried na phenderfynu ar unrhyw gais i gynnwys rhywun ar restr fferyllol neu restr meddygon fferyllol, neu i ddiwygio cofnod ar restr o'r fath.

Bydd unrhyw geisiadau a wneir cyn i Reoliadau 2020 ddod i rym yn dal i gael eu hystyried yn ystod y cyfnod gwahardd symud hwn, ond yn unol â'r darpariaethau perthnasol o Reoliadau 2013.

Bwriad y cyfnod gwahardd symud yw rhoi amser i'r byrddau iechyd gwblhau eu Hasesiadau cyntaf o Anghenion Fferyllol a'u galluogi i ymdrin ag unrhyw geisiadau dyledus a wnaed o dan Reoliadau 2013.

Cwestiwn 24: Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfnod 'gwahardd symud' hwn a'r amserlenni hyn?

Atodlenni

Mae Atodlenni 1 i 8 yn ymdrin â materion fel a ganlyn:

- ATODLEN 1: Rheoliad 4 – Gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn Aseiad o Anghenion Fferyllol
- ATODLEN 2: Rheoliadau 15, 18, 23, 29, 32 a 33 – Gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn ceisiadau am gael darparu gwasanaethau fferyllol
- ATODLEN 3: Rheoliadau 13, 15 a 30 – Gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan Fyrddau Iechyd Lleol wrth benderfynu ceisiadau o dan y Rheoliadau
- ATODLEN 4: Rheoliadau 14, 25, 45 a 54 – Apelau i Weinidogion Cymru
- ATODLEN 5: Rheoliad 12 - Telerau gwasanaethu ar gyfer fferyllwyr y GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol yn benodol drwy ddarparu cyffuriau
- ATODLEN 6: Rheoliad 12 – Telerau gwasanaethu ar gyfer contractwyr cyfarpar y GIG sy'n darparu gwasanaethau fferyllol trwy ddarparu cyfarpar yn unig
- ATODLEN 7: Rheoliad 12 – Telerau gwasanaethu ar gyfer meddygon sy'n darparu gwasanaethau fferyllol
- ATODLEN 8: Rheoliad 64 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol

Y BROSES YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI

Y Broses Ymgynghori

Mae ymgynghoriad wyth wythnos yn cael ei lansio i roi cyfle i bartion â buddiant wneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft hyn (“Rheoliadau 2020”).

Bydd unrhyw ymatebion a dderbynnir fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus, a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Grwpiau yr effeithir arnynt

Bydd y Rheoliadau drafft arfaethedig yn arbennig o berthnasol i fusnesau fferylliaeth manwerthu a phawb sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaethau fferyllol y GIG yng Nghymru.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

C1: Ydych chi'n cytuno y dylai'r holl wasanaethau a ddarperir o dan adrannau 80 ac 81 o Ddeddf y GIG (Cymru) gael eu cynnwys yn y diffiniad o wasanaethau fferyllol at ddibenion y Rheoliadau?

Rhowch eich ymateb yma:

C2: Ydych chi'n cytuno y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl wasanaethau fferyllol, ac a oes unrhyw bobl eraill sy'n darparu'r gwasanaethau hyn y dylid eu hystyried?

Rhowch eich ymateb yma:

C3: Ydych chi'n credu bod unrhyw beth y gellid ei ychwanegu at y rhestr o wybodaeth ofynnol i wella cynnwys asesiad o anghenion fferyllol?

Rhowch eich ymateb yma:

C4: Ydych chi'n credu bod y cyfnod o bum mlynedd rhwng asesiadau yn briodol?

Rhowch eich ymateb yma:

C5: Ydych chi'n cytuno y dylai'r bwrdd iechyd fod o dan ddyletswydd i ddiwygio ei asesiad o anghenion fferyllol unwaith iddo ystyried bod newidiadau sylweddol i'r amgylchiadau yn ei ardal; er enghraifft, datblygiad tai mawr?

Rhowch eich ymateb yma:

C6: Ydych chi'n cytuno gyda'r rhestr o bobl y mae'n rhaid ymgynghori â nhw ar gynnwys asesiad?

Rhowch eich ymateb yma:

C7: A oes unrhyw bobl eraill y dylid ymgynghori â nhw?

Rhowch eich ymateb yma:

C8: Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer y bwrdd iechyd yn cyhoeddi ei asesiad?

Rhowch eich ymateb yma:

C9: A oes unrhyw ffactorau eraill y dylai bwrdd iechyd roi sylw iddynt wrth wneud asesiad?

Rhowch eich ymateb yma:

C10: Ydych chi'n credu y byddai'n briodol cynnal y rhestrau fferyllol a'r rhestrau meddygon fferyllol presennol pan fydd Rheoliadau 2020 yn dod i rym?

Rhowch eich ymateb yma:

C11: Ydych chi'n cytuno y dylid cynnal ardaloedd rheoledig a ddiffiniwyd yn flaenorol?

Rhowch eich ymateb yma:

C12: Ydych chi'n credu ei bod hi'n briodol newid y prawf o ganlyniad i gyflwyno asesiad o anghenion fferyllol?

Rhowch eich ymateb yma:

C13: A oes unrhyw feini prawf eraill y dylid eu cymhwyso i'r prawf hwn?

Rhowch eich ymateb yma:

C14: Ydych chi'n cytuno y dylid dileu adleoliad bach ar gyfer eiddo?

Rhowch eich ymateb yma:

C15: Ydych chi'n credu mai dim ond pan fo angen wedi'i nodi yn asesiad y bwrdd iechyd a chyn belled nad yw'n rhoi pobl sydd wedi arfer cael mynediad at wasanaethau yn y lleoliad presennol o dan anfantais y dylid caniatáu symud rhwng ardaloedd bwrdd iechyd?

Rhowch eich ymateb yma:

C16: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y diwygiad canlyniadol hwn?

Rhowch eich ymateb yma:

C17: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y meini prawf ar gyfer cynnwys ymgeiswyr ar y rhestr o dan amodau penodol?

Rhowch eich ymateb yma:

C18: A oes gennych chi unrhyw sylwadau mewn perthynas â datrys anghydfod yn lleol cyn cyflwyno hysbysiad torri amodau neu hysbysiad adfer?

Rhowch eich ymateb yma:

C19: A oes unrhyw wybodaeth arall y dylai hysbysiad adfer ei chynnwys?

Rhowch eich ymateb yma:

C20: A yw'r telerau y gall y bwrdd iechyd dynnu taliad yn ôl am dorri telerau gwasanaeth oddi tanynt yn briodol?

Rhowch eich ymateb yma:

C21: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y broses o gyflwyno hysbysiadau adfer a hysbysiadau torri amodau?

Rhowch eich ymateb yma:

C22: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y meini prawf ar gyfer tynnu rhywun oddi ar restr fferyllol mewn perthynas â materion perfformiad?

Rhowch eich ymateb yma:

C23: A oes gennych chi unrhyw sylwadau ar apelio yn erbyn penderfyniadau bwrdd iechyd mewn perthynas â materion perfformiad?

Rhowch eich ymateb yma:

C24: Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfnod 'gwahardd symud' hwn a'r amserlenni hyn?

Rhowch eich ymateb yma:

C25: A ydych chi'n rhagweld y bydd y rheoliadau drafft yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol?

Rhowch eich ymateb yma:

C26: A oes unrhyw bwyntiau ychwanegol yr hoffech chi eu gwneud ynglŷn â'r cynigion a amlinellir yn y rheoliadau drafft?

Rhowch eich ymateb yma:

C27: Hoffem gael eich barn am yr effeithiau y câi'r rheoliadau drafft ar y Gymraeg, yn benodol am y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac am beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl bydd yr effeithiau? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Rhowch eich ymateb yma:

C28: Esboniwch hefyd sut y credwch y gellid llunio neu newid y darpariaethau rheoliadol arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a heb effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Rhowch eich ymateb yma:

C29: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. A oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu rhoi mewn adroddiad a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Os hoffech i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: